Y Bwrdd Taliadau
**Dogfen ategol**

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Adendwm

## Y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd: Cynigion polisi newydd a newidiadau drafftio

Chwefror 2026

| Cyflwyniad |
| --- |
| Mae'r ddogfen hon yn adendwm clir ei ffocws i Asesiad presennol y Bwrdd o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ar gyfer y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd, a lywiodd benderfyniadau polisi cychwynnol y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025.<br><br>Mae'n ystyried goblygiadau cydraddoldeb nifer gyfyngedig o gynigion polisi ychwanegol, a'r newidiadau perthnasol sy'n deillio o ailddrafftio'r Penderfyniad symlach ar gyfer y Seithfed Senedd.<br><br>Diben yr adendwm hwn yw nodi unrhyw effeithiau newydd neu effeithiau wedi'u haddasu ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu, a'r rhai sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol, ac i dynnu sylw at unrhyw fesurau lliniaru o ganlyniad i hynny.<br><br>Bydd yn llywio trafodaethau’r Bwrdd ar y Penderfyniad terfynol ac yn ei gefnogi i gydymffurfio â'i ddyletswydd i roi sylw dyledus i gydraddoldeb a hygyrchedd wrth wneud penderfyniadau. |

| Ar gyfer pwy mae'r Polisi? |
| --- |
| Mae'r Penderfyniad yn berthnasol i:<br>• Y cyhoedd – deall pa gostau o ran cyflog, staff a busnes y caiff Aelodau eu hawlio<br>• Y cyhoedd – darpar ymgeiswyr posibl mewn etholiadau<br>• Aelodau o'r Senedd<br>• Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau (grwpiau gwleidyddol)<br>• Comisiwn y Senedd – sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad a chyhoeddi hawliadau sy'n deillio o'r Penderfyniad. |
| **Pwy sydd wedi cyfrannu / Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad?** |
| Mae nifer o gynigion polisi wedi eu llunio drwy gynnwys ac ymgysylltu â'r canlynol:<br>• Aelodau o'r Senedd (drwy sesiynau galw heibio yn ystod 2024-26, cyfweliadau ag Aelodau unigol a chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr yr Aelodau fel rhan o Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau y Bwrdd, ac Aelodau unigol)<br>• Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau a staff a chynrychiolwyr yr undebau fel rhan o Grŵp Cynrychiolwyr Staff y Bwrdd<br>• Swyddogion Comisiwn y Senedd, yn enwedig y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, sy'n gweinyddu'r Penderfyniad<br><br>Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r canlynol ar y cynigion polisi:<br>• Aelodau o'r Senedd<br>• Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau (grwpiau gwleidyddol)<br>• Undebau Unite a PCS<br>• Comisiwn y Senedd<br>• Ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychioli cydraddoldeb.<br>• Cafodd dogfennau ymgynghori'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd, a'u hyrwyddo drwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy X. |

| Cwmpas |
| --- |
| Mae'r adendwm hwn yn ystyried y goblygiadau cydraddoldeb yn y meysydd a ganlyn sydd wedi cael eu datblygu neu eu diwygio ers yr Asesiad gwreiddiol o’r Effaith ar Gydraddoldeb:<br>- **Secondiadau staff** – Mae'r Penderfyniad drafft yn cyflwyno darpariaeth i staff cymorth wasanaethu ar sail secondiad. Mae’r trefniant hwn yn caniatáu i unigolyn weithio dros dro mewn swyddfa Aelod tra'n parhau i gael ei gyflogi gan sefydliad arall, yn amodol ar y rheolau a'r trefniadau ariannu a nodir ym mhennod y Penderfyniad ar staffio.<br>- **Taliadau cyfrifoldeb ychwanegol ar gyfer staff cymorth** – Mae'r Penderfyniad drafft yn cynnwys mecanwaith newydd sy'n caniatáu i staff cymorth gael taliadau ychwanegol mewn achosion lle maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i'r rhai sydd fel arfer yn gysylltiedig â'u rôl sylweddol, o fewn meini prawf a therfynau ariannu sydd wedi’u diffinio.<br>- **Cymorth adleoli** – Cyflwynir darpariaeth newydd i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer adleoli mewn achosion lle mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i aelod o staff cymorth barhau i gael ei gyflogi gan Aelod, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer hawliadau teithio ychwanegol dros dro mewn achosion lle mae'n ofynnol i staff deithio pellteroedd hwy o ganlyniad i newidiadau yn eu trefniadau gweithio, ac mewn achosion lle nad oes modd cadw swydd, y defnydd posibl o ddarpariaethau diswyddo. Bwriad y ddarpariaeth hon yw cefnogi ymdrechion i gadw staff.<br>- **Dileu Opsiwn B (treuliau sy'n ymwneud â chartref yn ardal Caerdydd y mae Aelod yn talu amdano ei hun)** – Mae'r Penderfyniad drafft yn dileu'r opsiwn presennol sy'n caniatáu i Aelod sydd â chartref yn ardal Caerdydd y mae’n talu amdano ei hun, ac sy’n gallu dangos bod ganddo gyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd fel arfer yn preswylio gydag ef yn ardal Caerdydd, i hawlio hyd at £1,905 y flwyddyn i dalu’r gost uwch o gael llety addas. Mae'r dull diwygiedig yn dibynnu ar y darpariaethau safonol ar gyfer llety dros nos.<br>- **Ailddrafftio'r bennod ar Gymorth Ychwanegol –** Yn sgil yr adborth a gafwyd i’r ymgynghoriad, mae'r Penderfyniad drafft yn cadw pennod ar wahân ar gyfer nodi’r cymorth a ddarperir mewn perthynas ag anabledd, cyfrifoldebau gofalu ac absenoldeb rhiant, yn hytrach nag integreiddio'r darpariaethau hyn drwy gydol y ddogfen. Mae'r bennod ar Gymorth Ychwanegol wedi'i hailddrafftio i adlewyrchu'n gliriach y model cymdeithasol o anabledd, ac i roi pwyslais ar ddileu’r rhwystrau i gyfranogiad yn hytrach nag ar ddiffygion unigol.<br>- **Dileu cyfeiriadau at gyhoeddi costau gofal** – Mae'r Penderfyniad drafft yn dileu'r cyfeiriad a wnaed yn flaenorol at gyhoeddi costau gofal crynodedig a dienw. Mae hyn yn adlewyrchu safbwynt y Bwrdd mai mater i Gomisiwn y Senedd yw cyhoeddi hawliadau, gan gydnabod y gallai pryderon ynghylch cyhoeddi atal pobl rhag hawlio cymorth. |

Cafodd pob elfen arall o'r Penderfyniad – gan gynnwys penderfyniadau craidd ar daliadau i Aelodau, cyllidebau staffio, a darpariaethau cymorth presennol – eu hasesu yn y prif Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, ac ni chânt eu hailystyried yma.

Casglwyd y dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adran hon o’r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriadau, data ar hawliadau (lle bônt ar gael), a sylfaen dystiolaeth bresennol y Bwrdd.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effeithiau posibl pob cynnig ar gydraddoldeb, ynghyd â’r mesurau lliniaru a'r trefniadau monitro ar eu cyfer.

| Cynnig / newid | Grwpiau yr effeithir arnynt | Yr effeithiau cadarnhaol posibl, ac a yw'r polisi hwn yn cynnig cyfle i ddatblygu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol o bobl? | Effeithiau negyddol posibl | Gweithredu / Addasu / Rhoi o’r neilltu |
|---|---|---|---|---|
| **Secondiadau staff** | Pob aelod o staff; staff iau; pobl o gefndiroedd nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol; pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu; pobl nad oes modd iddynt ymrwymo i adleoli'n barhaol. | Darparu cymorth ar gyfer Aelodau newydd eu hethol sydd angen cymorth profiadol ar unwaith; ehangu mynediad at rolau seneddol amgen a hyrwyddo datblygiad/cynnydd ymhlith y staff drwy lwybrau mynediad dros dro; cefnogi llwybrau gyrfa hyblyg. | Dim wedi’u nodi. | **Gweithredu**<br><br>Bydd y trefniadau wedi’u seilio ar gytundebau ysgrifenedig rhwng yr Aelodau sy'n cyflogi’r staff, a fydd yn egluro’r disgwyliadau, y cyfrifoldebau a’r mecanweithiau adrodd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Taliadau cyfrifoldeb ychwanegol** | Pob aelod o staff; staff rhan-amser; staff sy’n rhannu swyddi; staff sydd â chyfrifoldebau gofalu; staff anabl. | Cydnabod dyletswyddau ychwanegol a darparu cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer heb fod angen dyrchafiad; cefnogi patrymau gweithio hyblyg a hyrwyddo datblygiad/cynnydd ymhlith y staff. | Dim wedi’u nodi. | **Gweithredu**<br><br>Mae’r meini prawf wedi’u nodi’n glir yn y Penderfyniad, a gellir ceisio cyngor gan Gomisiwn y Senedd. |
| **Cymorth adleoli** | Pob aelod o staff, ond gall effeithio ar y rhai sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is; staff iau neu staff sydd â chyfrifoldebau gofalu nad ydynt efallai'n gallu teithio pellteroedd hwy. | Rhai mesurau lliniaru ariannol i gynnal rolau neu fesurau addasu ariannol ar gyfer aelodau staff yr effeithir arnynt gan gostau neu amser teithio ychwanegol; cefnogi amrywiaeth ddaearyddol ac economaidd-gymdeithasol ymhlith y staff.<br><br>Fodd bynnag, mater i'r Aelodau yw ystyried amgylchiadau unigol y cyflogeion yr effeithir arnynt wrth ystyried | Dim wedi’u nodi.<br><br>Gall Aelodau hefyd ystyried trefniadau gwaith amgen i liniaru ymhellach effaith adleoli gweithle aelod o staff. | **Gweithredu**<br><br>Bydd y broses o adleoli swyddfeydd, ynghyd ag unrhyw addasiadau neu gymorth neu benderfyniadau ynghylch diswyddiadau posibl, yn fater i'r Aelod, fel cyflogwr unigol, gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau personol penodol unrhyw gyflogai yr effeithir arno, a threfniadau amgen posibl. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hawliadau teithio dros dro/diswyddiadau o ganlyniad i adleoli. | | |
| **Dileu Opsiwn B – o ddechrau'r Seithfed Senedd, ni fydd Aelod bellach yn gallu hawlio am gostau nad ydynt yn gostau rhent / cyfalaf (megis y dreth gyngor a chostau cyfleustodau), mewn achosion lle mae ganddo gartref yn ardal Caerdydd y mae'n talu amdano ei hun.** | Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu; Aelodau sy'n briod / rhan o bartneriaeth sifil; Aelodau sydd â lefel is o wydnwch ariannol. | Wedi'i gysoni'n glir â dyletswyddau'r Bwrdd o ran uniondeb, a'r pwynt na ddylai unrhyw fudd personol gwirioneddol neu fudd canfyddedig ddeillio o'r Penderfyniad.<br><br>Symleiddio'r system hawlio a chysoni'r cymorth â darpariaethau safonol ar gyfer llety dros nos. | Effaith negyddol ar un Aelod sy'n hawlio ar hyn o bryd.<br><br>Gallai atal ymgeiswyr rhag sefyll a lleihau'r lefel o gymorth a fyddai fel arall yn cael ei ddarparu i Aelodau yn y Seithfed Senedd (gan gynnwys rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sy'n briod neu'n rhan o bartneriaeth sifil, o bosibl) sydd â chartref yng Nghaerdydd ar hyn o bryd (y maent yn talu amdano eu hunain) neu a allai ddewis cael cartref yng Nghaerdydd (y byddent yn talu amdano eu hunain) yn ystod tymor y Senedd. | **Gweithredu a lliniaru**<br><br>Byddai cael gwared ar y ddarpariaeth yn cael effaith negyddol ar rai unigolion sydd â rhai nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Bwrdd gydbwyso'r egwyddor graidd na ddylai unrhyw fudd personol ddeillio o unrhyw hawliadau a wneir o dan y Penderfyniad, a bod yn rhaid i Aelodau 'sicrhau na fydd ceisiadau'n arwain at fudd ariannol personol amhriodol, nac yn arwain at ganfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, iddynt eu hunain nac i neb arall', gyda'r swyddogaethau eraill sydd wedi'u nodi yn adran 3(2) o'r Mesur. O dan y darpariaethau presennol yn Opsiwn B, byddai person sy'n berchen ar gartref yn ardal Caerdydd, neu'n cyfrannu at gostau rhent / morgais cartref o'r fath, yn gallu hawlio costau sy'n gysylltiedig â'r cartref hwnnw y byddent fel arfer wedi'u hysgwyddo ac wedi talu amdanynt yn bersonol mewn perthynas â'u heiddo. Ar ben hynny, pe bai Aelod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn byw mewn cartref yn ardal Caerdydd ac yn rhannu costau rhent neu forgais gyda pherson arall (nid aelod o'r teulu sy'n ddibynnol arno), byddai'r person arall hwnnw'n elwa a byddai ganddo gostau byw â chymhorthdal yn ei eiddo, a allai hefyd fod yn brif breswylfa iddo.<br><br>Mesurau lliniaru:<br><br>Byddai effaith y cynnig hwn yn cael ei lliniaru o ystyried y ffaith bod cymorth ar gyfer llety dros nos amgen yn parhau i fod ar gael i Aelodau drwy Opsiwn A (llety rhent neu westy) a'r llwybr costau eithriadol.<br><br>Gall Aelod sydd â chyfrifoldebau gofalu sy'n rhentu o dan Opsiwn A fod yn gymwys i gael costau llety ychwanegol yn seiliedig ar ble mae ei ddibynnydd fel arfer yn preswylio ag ef yng Nghaerdydd.<br><br>Bydd Aelod sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn gallu hawlio, lle bo'n gymwys, gymorth uwch ar gyfer costau gofal yn y Seithfed Senedd.<br><br>Mesurau lliniaru posibl: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd am ystyried trefniadau trosiannol i liniaru'r effeithiau uniongyrchol ar unrhyw Aelod sydd, ar ddiwedd y Chweched Senedd, yn gwneud hawliadau drwy Opsiwn B. |
| **Ailddrafftio a symleiddio'r bennod ar Gymorth Ychwanegol** | Aelodau ac aelodau staff anabl; Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu; y rhai y mae angen absenoldeb rhiant arnynt; Aelodau sydd angen gwneud trefniadau i gefnogi staff neu etholwyr anabl. | Gwella gwelededd ac eglurder y cymorth sydd ar gael; gall ddarparu cyfarwyddyd cliriach gynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth, yn enwedig ar gyfer Aelodau a staff anabl, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac Aelodau newydd. | Dim wedi'u nodi. | **Gweithredu**<br><br>Cadw'r mecanwaith ar gyfer costau eithriadol er mwyn mynd i'r afael ag amgylchiadau unigol, wedi'i gefnogi gan ganllawiau a chyfathrebu clir, gan gynnwys yn ystod cyfnod cynefino'r Aelodau.<br><br>Bydd patrymau hawliadau ac adborth yn cael eu monitro er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau i fod ar gael yn ymarferol. |
| **Trefniant sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r model cymdeithasol o anabledd** | Aelodau, staff ac etholwyr anabl. | Pwyslais ar gael gwared ar rwystrau strwythurol; cefnogi'r broses o gyflwyno darpariaethau cymorth fel mesurau cynhwysol. | Dim wedi'u nodi. | **Gweithredu** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dileu cyfeiriadau yn y Penderfyniad at gyhoeddi hawliadau 'dienw ac agregedig' sy'n ymwneud â Phennod 3 (sy'n cynnwys cymorth i Aelodau anabl, costau gofal a chymorth rhieni)** | Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu; Aelodau sydd â dibynyddion anabl; Aelodau anabl. | Amherthnasol | Gallai'r cam o ddileu cyfeiriadau yn y Penderfyniad at gyhoeddi hawliadau 'dienw ac agregedig' danseilio bwriad y polisi ac atal Aelodau cymwys rhag gwneud hawliadau.<br><br>Risg o bryderon yn codi ynghylch preifatrwydd amgylchiadau personol Aelodau a/neu breifatrwydd eu teuluoedd. | **Gweithredu a lliniaru**<br><br>Mae gan Gomisiwn y Senedd ddyletswydd statudol (o dan adran 22(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru) i gyhoeddi lwfansau'r Aelodau; nid oes gan y Bwrdd unrhyw bŵer i gyfarwyddo Comisiwn y Senedd yn y broses o gyflawni ei ddyletswyddau, ac mae wedi penderfynu dileu pob cyfeiriad at ddyletswyddau neu brosesau Comisiwn y Senedd o'r Penderfyniad.<br><br>Mesur lliniaru:<br>Y Bwrdd yn ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i'w hysbysu am ddull gweithredu'r Bwrdd, gan nodi ei bod yn bosibl y bydd y Comisiwn am ystyried y trefniadau ynghylch cyhoeddi costau o dan Bennod 3. |

| Asesiad cyffredinol |
| --- |
| Wrth baratoi'r adendwm hwn, mae'r Bwrdd wedi ystyried sut y gallai'r cynigion effeithio ar bobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu ac sydd o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ac mae wedi ystyried y ffactorau hyn wrth wneud ei benderfyniadau.<br><br>Mae'n debygol y bydd sawl newid yn cael effaith gadarnhaol o ran hygyrchedd a chyfranogiad, yn enwedig ymhlith pobl anabl, gofalwyr a phobl sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol. Mewn achosion lle mae goblygiadau negyddol wedi dod i'r amlwg, mae mesurau lliniaru wedi'u nodi, naill ai drwy ffynonellau cymorth amgen, neu ganllawiau a phrosesau clir.<br><br>Bydd y Bwrdd yn adolygu goblygiadau'r darpariaethau hyn o ran cydraddoldeb yn ystod cyfnod cychwynnol y Seithfed Senedd, gan ymgysylltu ag Aelodau, staff cymorth a Chomisiwn y Senedd. |